

## **Agenda – Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd**

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Fideogynhadledd ar Zoom	Helen Finlayson
Dyddiad: Dydd Iau, 16 Gorffennaf 2020	Clerc y Pwyllgor
Amser: 13.30	0300 200 6565
	<a href="mailto:SeneddDiwygio@senedd.cymru">SeneddDiwygio@senedd.cymru</a>

### **Rhag-gyfarfod**

(13.30–13.45)

#### **1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**

(13.45)

#### **2 Trafod y materion allweddol a'r adroddiad drafft**

(13.45–15.45)

(Tudalennau 1 – 90)

##### **Dogfennau atodol:**

CSER(5)–10–20 Papur 1 – Amserlenni ar gyfer diwygio etholiadol [Saesneg yn unig]

CSER(5)–10–20 Papur 2 – Ethol Senedd fwy amrywiol [Saesneg yn unig]

CSER(5)–10–20 Papur 3 – Systemau a ffiniau etholiadol [Saesneg yn unig]

#### **3 Blaenraglen waith**

(15.45–15.55)

#### **4 Papurau i'w nodi**

(15.55–16.00)

##### **4.1 Llythyr gan y Prif Weinidog ynghylch fersiwn ddrafft Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2020 – 15 Mehefin 2020**

(Tudalen 91)

##### **Dogfennau atodol:**

CSER(5)–10–20 Papur i'w nodi 1



**4.2 Llythyr gan y Prif Weinidog ynghylch fersiwn ddrafft Gorchymyn Senedd  
Cymru (Anghymhwyso) 2020 – 22 Mehefin 2020**

(Tudalen 92)

**Dogfennau atodol:**

CSER(5)-10-20 Papur i'w nodi 2

**4.3 Llythyr gan Gadeirydd y Bwrdd Taliadau mewn ymateb i gais y Pwyllgor am  
dystiolaeth ychwanegol – 22 Mehefin 2020**

(Tudalennau 93 – 103)

**Dogfennau atodol:**

CSER(5)-10-20 Papur i'w nodi 3

**4.4 Cyflwyniad ysgrifenedig gan Gymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol mewn  
ymateb i gais y Pwyllgor am dystiolaeth ynghylch systemau a ffiniau  
etholiadol – Gorffennaf 2020**

(Tudalennau 104 – 114)

**Dogfennau atodol:**

CSER(5)-10-20 Papur i'w nodi 4

**5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y  
cyhoedd o gyfarfod nesaf y Pwyllgor**

(16.00)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Llywodraeth Cymru  
Welsh GovernmentDawn Bowden AS  
Cadeirydd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd  
Senedd Cymru[SeneddDiwygio@senedd.cymru](mailto:SeneddDiwygio@senedd.cymru)

15 Mehefin 2020

Annwyl Gadeirydd

Mae'n bleser gennyf roi gwybod ichi fod dogfen ymgynghori sy'n ceisio barn ar Orchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2020 wedi'i chyhoeddi heddiw ar wefan Llywodraeth Cymru.

Cyn pob un o etholiadau'r Senedd, caiff Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007, sy'n nodi'r ffordd y bydd yr etholiad ac ymgyrch yr etholiad yn cael eu cynnal ac sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer her gyfreithiol, ei adolygu a'i ddiwygio er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau mewn polisi neu ddeddfwriaeth ers yr etholiad diwethaf.

Mae'r ymgynghoriad yn ceisio barn ar y diwygiadau arfaethedig i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 sy'n codi'n bennaf o ganlyniad i newidiadau i'r trefniadau etholfraint ac anghymhwysu a wnaed gan Ddeddf y Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 yn ogystal â rhai diwygiadau canlyniadol sy'n codi o'r darpariaethau enwi.

Mae'r Gorchymyn drafft hefyd yn cynnwys diwygiadau mwy sylweddol sy'n adlewyrchu newidiadau a wnaed yn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig i roi'r dewis i ymgeiswyr beidio â chyhoeddi eu cyfeiriad cartref mewn etholiad, ynghyd â mater talu ffioedd i swyddogion canlyniadau am wasanaethau a ddarperir. Hefyd, gwneir diweddariadau cyffredinol sy'n adlewyrchu newidiadau ers diwygio'r Gorchymyn ddiwethaf.

Prif ddiben yr ymgynghoriad hwn yw sicrhau ein bod wedi nodi'r materion perthnasol a bod y diwygiadau a luniwyd yn glir ac yn ymarferol. Nid ydym yn ymgynghori ar rinweddau polisiâu sydd eisoes wedi bod yn destun ymgynghoriad a dadl.

Bydd yr ymgynghoriad ar y cynigion hyn ar agor tan 8 Medi 2020. Mae manylion sut i ymateb wedi'u nodi yn y ddogfen ymgynghori.

Dymuniadau gorau

**MARK DRAKEFORD**Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SNCanolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400  
[YP.PrifWeinidog@llyw.cymru](mailto:YP.PrifWeinidog@llyw.cymru) • [ps.firstminister@gov.wales](mailto:ps.firstminister@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Llywodraeth Cymru  
 Welsh Government

Dawn Bowden AS  
 Cadeirydd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd  
 Senedd Cymru

[SeneddDiwygio@senedd.cymru](mailto:SeneddDiwygio@senedd.cymru)

22 Mehefin 2020

Annwyl Gadeirydd

Mae'n bleser gennyf roi gwybod ichi fod dogfen ymgynghori sy'n ceisio sylwadau ar fersiwn ddrafft Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwys) 2020 wedi cael ei chyhoeddi heddiw ar wefan Llywodraeth Cymru.

Cyn pob un o etholiadau cyffredinol y Senedd gwneir Gorchymyn Anghymhwys sy'n dirymu'r Gorchymyn blaenorol ac sy'n nodi rhestr wedi'i diweddarau o swyddi sy'n anghymhwys.

Byddai Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwys) 2020 yn dynodi swyddi y byddai eu deiliaid wedi eu hangymhwysio rhag bod yn Aelodau o'r Senedd (ond nid rhag bod yn ymgeisydd i fod yn Aelod o'r Senedd). Mae'r swyddi arfaethedig wedi eu disgrifio yn yr Atodlen i'r Gorchymyn drafft.

Mae swyddi eraill sy'n anghymhwysio, ynghyd â chategoriâu o berson sydd wedi eu hangymhwysio rhag bod yn Aelodau o'r Senedd, wedi eu rhagnodi gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Dylai'r Gorchymyn drafft gael ei ddarllen gyda'r darpariaethau perthnasol.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio sylwadau ynglŷn â pha swyddi y dylid eu cynnwys yn y fersiwn ddrafft o Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwys) 2020. Bydd yr ymgynghoriad ar y cynigion hyn ar agor tan 1 Medi 2020. Mae'r manylion ynglŷn â sut i ymateb ar gael yn y ddogfen ymgynghori.

Ar ôl ystyried yr ymatebion a ddaw i law, caiff y Gorchymyn drafft ei ddwyn ymlaen ar gyfer cael cymeradwyaeth gan y Senedd cyn iddo gael ei gyflwyno'n ffurfiol gerbron Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor yn nes ymlaen eleni.

Dymuniadau gorau

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
 Caerdydd • Cardiff  
 CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
 0300 0604400  
[YP.PrifWeinidog@llyw.cymru](mailto:YP.PrifWeinidog@llyw.cymru) • [ps.firstminister@gov.wales](mailto:ps.firstminister@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 92**  
 We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Dawn Bowden AS  
Cadeirydd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd

11 Mehefin 2020

Annwyl Dawn,

**Parthed: gwybodaeth ychwanegol yn dilyn gwrandawriad y Pwyllgor**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 10 Mawrth. Fel y soniwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 20 Ionawr, rwy'n fwy na pharod i'ch cynorthwyo gyda'ch gwaith os gallaf wneud hynny. Mae'r wybodaeth rydych chi wedi gofyn amdani i'w gweld o dan yr is-bennawd perthnasol isod.

**Capasiti'r Senedd**

O ran capasiti, y Bwrdd Taliadau ("y Bwrdd"), fel y gwyddoch, sy'n penderfynu ar lefel y lwfansau a'r adnoddau sydd ar gael yn uniongyrchol i Aelodau o'r Senedd a phleidiau gwleidyddol i'w galluogi i arfer eu swyddogaethau'n effeithiol. Swyddogaethau'r Bwrdd, fel y'u nodir yn adran 3 o Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 ("y Mesur"), yw pennu lefel y taliadau a'r system o gymorth ariannol i Aelodau o'r Senedd ("Aelodau") sy'n eu galluogi i gyflawni eu rolau, gan gynnwys y rhai sy'n ddeiliaid cyfrifoldebau ychwanegol.

Mae'r Bwrdd yn gorff cyhoeddus a rhaid i'w benderfyniadau ar y cymorth sydd ar gael i'r Aelodau gydymffurfio ag egwyddorion bywyd cyhoeddus, sef atebolrwydd, uniondeb a bod yn agored. Wrth wneud penderfyniadau, mae'r Bwrdd yn ystyried yr egwyddorion a ganlyn:

- Dylai'r cymorth ariannol a'r taliadau i'r Aelodau gefnogi diben strategol y Senedd a hwyluso gwaith ei Aelodau;
- Mae'n rhaid i benderfyniadau fod yn briodol yng nghyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru;



- Rhaid i'r system cymorth ariannol i'r Aelodau fod yn gadarn, yn glir, yn dryloyw ac yn gynaliadwy, a rhaid iddi gynnig gwerth am arian i drethdalwyr.

Yn unol â'r egwyddorion hyn, gwneir penderfyniadau ar sail yr hyn sy'n iawn ac yn briodol i Gymru a'r Senedd. Fodd bynnag, fel Bwrdd, rydym yn cwrdd â'n cymheiriaid yn seneddau eraill yn y DU i drafod ein gwaith gan gynnwys lwfansau, ac rydym yn ystyried lefelau eu gwahanol lwfansau wrth wneud penderfyniadau.

Gan ganolbwyntio'n benodol ar gapasiti, a'r cymorth sydd ar gael i Aelodau wneud eu gwaith, ceir dadansoddiad o'r cymorth staffio i Aelodau yng ngwahanol ddeddfwrfeydd y DU yn y tabl isod:

<b>Deddfwrfa</b>	<b>Blwyddyn ariannol 2020-21</b>
Senedd Cymru	£104,835
Cynulliad Gogledd Iwerddon	£50,000 (yn seiliedig ar Benderfyniad 2016 gyda chynnydd blynyddol o £500 i gyfrif am chwyddiant)
Senedd yr Alban	tua £93,930
Senedd y DU	£177,550 (neu £188,860 ar gyfer ardal Llundain)

Mae'r cymorth y mae'r Aelodau yn ei gael ym mhob deddfwrfa yn cael ei siapio gan hanes a rôl gyfansoddiadol y deddfwrfa honno. Mae'r ffordd y mae penderfyniadau'n cael eu gwneud hefyd yn wahanol ym mhob deddfwrfa. Mae gan Senedd y DU a Senedd Cymru baneli annibynnol sy'n gwneud penderfyniadau; roedd gan Gynulliad Gogledd Iwerddon Banel Adolygu Ariannol Annibynnol hefyd, ac yn yr Alban mae Corff Corfforaethol Seneddol yr Alban yn cyflwyno cynllun Ad-dalu Treuliau'r Aelodau i Senedd yr Alban.

Yn unol ag egwyddorion y Bwrdd, mae penderfyniadau am y lefel briodol o gymorth i'r Aelodau yn cael eu gwneud yng nghyd-destun Cymru. Mae gan Senedd Cymru lawer llai o Aelodau na'r seneddau eraill yn y DU. Barn y Bwrdd, felly, yw ei bod yn briodol bod gan Senedd Cymru, sy'n deddfwrfa fach â 60 o Aelodau yn unig, fwy o gapasiti o ran staffio na'r deddfwrfeydd datganoledig eraill.

Yn y cyd-destun hwn, rhwng mis Hydref 2017 a mis Gorffennaf 2019 cynhaliodd y Bwrdd **adolygiad** manwl o strwythur cyflogau a gyrfaedd staff cymorth yr Aelodau. Ystyriwyd lwfansau staffio'r Aelodau unigol, Grwpiau'r Pleidiau Gwleidyddol a chyflogau staff cymorth fel rhan o'r adolygiad hwnnw. Bu canfyddiadau'r adolygiad hwnnw o gymorth i lywio'r gwaith o baratoi'r darpariaethau yn y Penderfyniad drafft ar gyfer y Chweched Senedd.

Yn yr adolygiad, soniwyd bod lwfansau staffio Aelodau Senedd y DU yn sylweddol uwch na'r lwfansau y darperir ar eu cyfer gan y Penderfyniad. Fodd bynnag, mae'r cyfartaledd cyflogau yn sylweddol uwch yn Llundain nag yng Nghymru, ac mae hynny'n cyfrif am ryw faint, o leiaf, o'r gwahaniaeth yn y lwfansau hyn. Mae'r lwfansau staffio a ddarperir ar gyfer Aelodau o'r Senedd yn uwch na'r rhai sydd ar gael i Aelodau Senedd yr Alban ac Aelodau Cynulliad Gogledd Iwerddon, sydd efallai'n gymhariaeth decach o ystyried llwyth gwaith, cyfrifoldebau a lefelau cyflog.

Yn yr adolygiad hefyd, yn ychwanegol at y lwfansau a ddarperir i Aelodau o'r Senedd yn benodol at ddibenion talu cyflogau staff, soniwyd y caniateir iddynt drosglwyddo hyd at 25 y cant o'u lwfans costau swyddfa ac unrhyw danwariant yn eu Cronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu i'w Lwfans Staffio i'w wario ar gyflogau staff (fel yr amlinellir yn y darpariaethau trosglwyddo yn Adran 6.8 o'r Penderfyniad). Nid yw'r math yma o ddarpariaeth drosglwyddo ar gael i Aelodau etholedig yr Alban na San Steffan.

Ar ôl ystyried y mater hwn, penderfynodd y Bwrdd beidio â gwneud newidiadau i lwfansau staffio'r Aelodau nac i gyflogau'r staff cymorth ar wahân i'r addasiadau blynyddol y darperir ar eu cyfer drwy fynegeo ar sail yr enillion gros canolrifol yng Nghymru. Ar yr un pryd, cydnabu'r Bwrdd ei bod yn debygol y bydd angen adolygiad o lwfansau staffio a chyflogau'r staff cymorth os bydd y Senedd yn penderfynu cynyddu nifer ei Haelodau.

Yn ôl trafod â'r Aelodau, rydym hefyd yn sylweddoli bod pwysau ar eu hamser, a bod terfyn ar eu gallu i ymdopi â rhagor o wybodaeth neu i reoli rhagor o staff. Amser yr Aelodau eu hunain sydd dan y mwyaf o bwysau, oherwydd nifer y pwyllgorau y maent yn gwasanaethu arnynt, hyd sesiynau'r Cyfarfod Llawn ac ati, a'r gofynion i gwrdd ag etholwyr a grwpiau buddiant. Mae'n anodd gweld sut y gallai'r Bwrdd ddarparu ar gyfer unrhyw gymorth pellach i leddfau pwysau o'r fath ar amser yr Aelodau.

Heb amheuaeth, bydd y Bwrdd nesaf yn cadw lefelau'r cymorth sydd ar gael i'r Aelodau dan adolygiad. Efallai y bydd pwerau'r Senedd yn newid dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, er enghraifft yn sgil Brexit, y posibilrwydd y gallai cyfiawnder gael ei ddatganoli, ac ati. Byddai hyn yn amlwg yn effeithio ar gyfrifoldebau'r Aelodau, ac mae angen newid y lefel a'r math o gymorth sydd ar gael iddynt yn unol â hynny, pa un a gaiff nifer yr Aelodau ei newid ai peidio.

#### Dull gweithredu Bwrdd y dyfodol

Yn eich llythyr, rydych chi'n gofyn am y modd y gallai Bwrdd y dyfodol fynd ati i ddatblygu Penderfyniad i ddiwallu anghenion Senedd mwy o faint. Yn anffodus, ni allaf wneud sylwadau ar sut y byddai Bwrdd olynol yn mynd ati mewn sefyllfa o'r fath. Fodd bynnag, gan fod y Bwrdd presennol wedi gorffen ei adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd, gallaf roi syniad o sut olwg fydd ar y broses hon o'n profiad ni.

Mae'r Bwrdd yn glir bod ei benderfyniadau ar y taliadau i'r Aelodau yn seiliedig ar eu cyfrifoldebau, sy'n deillio o bwerau'r Senedd nid o'u llwyth gwaith. Mae'r Mesur yn nodi bod yn rhaid i'r Bwrdd ddarparu lefel taliadau ar gyfer yr Aelodau "sy'n adlewyrchiad teg o gymhlethdod a phwysigrwydd y swyddogaethau y disgwylir iddynt eu cyflawni." Mae cyfrifoldebau'r Aelodau wedi newid gan fod pwerau'r Senedd wedi cynyddu gydag amser. Mae hyn hefyd wedi arwain at gynnydd yn ystod y degawd diwethaf yn y cymorth staffio a'r cymorth ariannol sydd ar gael i'r Aelodau. Arweiniodd hefyd at ail-werthusiad sylweddol o lefel y taliadau sy'n briodol ar gyfer cyfrifoldebau'r Aelodau ar ddechrau'r Pumed Senedd. Mae'r Bwrdd hwn wedi cyhoeddi'r **Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd** ac wedi penderfynu cynnal y trefniadau cyflog presennol.

Mae'n debygol y bydd datblygiadau cyfansoddiadol presennol yn effeithio ar y Senedd maes o law, er enghraifft sut y mae pwerau'n cael eu dychwelyd yn sgil Brexit a'r posibilrwydd y bydd newidiadau i faint y Senedd fel sy'n cael ei drafod gan y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd. Fodd bynnag, nid yw effaith newidiadau posibl o'r fath ar rolau a chyfrifoldebau'r Aelodau yn glir ar hyn o bryd. Byddai angen ystyried materion o'r fath wrth ddatblygu cynigion i fynd i'r afael ag anghenion Senedd mwy o faint os bydd newidiadau yn y setliad datganoli erbyn hynny.

Cyn i unrhyw Fwrdd ystyried sut i ddarparu ar gyfer anghenion Senedd mwy o faint o fewn y Penderfyniad, byddai angen eglurder ynghylch manylion unrhyw gynnydd arfaethedig ym maint y Senedd. Er enghraifft, nifer yr Aelodau ychwanegol, unrhyw newidiadau i'r system etholiadol, ac a fyddai hawl i'r Aelodau rannu swyddi. Ni fyddai asesiad ystyrion o'r goblygiadau i'r Penderfyniad yn bosibl heb ragdybiaethau clir a chadarn i'r Bwrdd allu bwrw ymlaen â'i waith.

Yna, byddai angen i'r Bwrdd gynnal adolygiad llawn o'i Benderfyniad. Byddai angen iddo asesu'n ofalus y newidiadau i rolau a chyfrifoldebau'r Aelodau, a sut y byddai hyn yn effeithio ar y cymorth sydd ei angen fel y gallant arfer eu swyddogaethau yn effeithiol. Byddai angen i'r Bwrdd hefyd gadw cydbwysedd rhwng diwallu anghenion strategol Aelodau o'r Senedd a chost Senedd mwy o faint i drethdalwyr.

Mae'n debygol y byddai adolygiad o'r fath o'r Penderfyniad yn cymryd mwy o amser na'r adolygiad presennol o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd. Byddai'n ddarn sylweddol o waith a fyddai'n cymryd amser i'w gynllunio a'i gwblhau. Ni fyddai unnryw fodel penodol i'r Bwrdd ei ddilyn i allu asesu effeithiau'r newidiadau o ran maint, y system etholiadol ac ati ar y Penderfyniad.

Gan dybio y bydd y Bwrdd nesaf yn dymuno parhau â dull gweithredu'r Bwrdd hwn a'i ragflaenydd, sef cyhoeddi'r Penderfyniad flwyddyn cyn yr etholiad nesaf, byddai angen cyhoeddi'r Penderfyniad yn ystod gwanwyn 2025. Diben hyn yw rhoi eglurder i ddarpar

ymgeiswyr sy'n sefyll yn etholiad y Senedd yn 2026 ar y pecyn taliadau a chymorth a fydd ar gael i'r Aelodau.

Gan ystyried yr holl faterion a amlinellwyd uchod, ac yn seiliedig ar yr adolygiad blaenorol a'r adolygiad presennol o'r Penderfyniad, fy asesiad yw y byddai angen dwy flynedd neu ragor i'w gwblhau. Byddai angen i'r holl ystyriaeth ac ymgynghori ddigwydd ymhell cyn hynny er mwyn gallu cyhoeddi'r Penderfyniad. Mae'n ddyletswydd ar y Bwrdd hefyd i ymgynghori â rhanddeiliaid. Byddai angen i'r Bwrdd ymgynghori ar y ddau gynnig ar gyfer newid a hefyd ar y Penderfyniad terfynol. Y cyfnod ymgynghori safonol a ddefnyddiodd y Bwrdd hwn yw chwe wythnos (heb gyfrif cyfnodau'r toriad). Fodd bynnag, ar gyfer materion mwy cymhleth a sylweddol, mae'r Bwrdd hefyd yn ystyried cyfnodau ymgynghori hirach os yw'r amserlenni yn caniatáu ar gyfer hynny. Er enghraifft, cymerodd adolygiad y Bwrdd o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd bron ddwy flynedd. Fodd bynnag, rhagflaenwyd hyn hefyd gan **adolygiad o'r cymorth staffio** (a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2019) a threuliodd 22 mis ar yr adolygiad hwnnw'n unig.

#### Y farn am y rhagdybiaeth o ran costau

Heb wybod fanylion llawn y cynlluniau i gynyddu maint y Senedd, mae arnaf ofn nad yw'r Bwrdd yn gallu ystyried a oes unrhyw lwfansau penodol a allai fod yn fwy neu'n llai tebygol o gael eu diwygio wrth baratoi Penderfyniad ar gyfer sefydliad mwy o faint.

Fel y nodwyd eisoes yn y llythyr hwn, pe cytunir ar gynigion ar gyfer Senedd mwy o faint, byddai angen i'r Bwrdd gynnal adolygiad llawn o'i Benderfyniad. Byddai hyn yn cynnwys asesu anghenion yr Aelodau yng nghyd-destun eu rolau a'u cyfrifoldebau, a pha lefel o gymorth fyddai ei hangen ar yr Aelodau i weithredu'n effeithiol. Byddai angen i'r Bwrdd hefyd ystyried cost hyn i drethdalwyr. Ar hyn o bryd, nid yw'r wybodaeth hon yn hysbys ac felly nid ydym mewn sefyllfa i wneud sylwadau ar unrhyw lwfansau penodol.

Mae goblygiadau cyllido darpariaethau'r Bwrdd yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn ac mae'n dibynnu ar amryw bethau, hynny yw y defnydd a wneir o'r arian gan yr Aelodau unigol, y cyfnod amser yn y cylch etholiadol ac ati. Nid yw'r Bwrdd yn cadw'r math yma o wybodaeth ac o'r herwydd byddwn yn argymhell eich bod yn cysylltu â Chomisiwn y Senedd er mwyn ei chael.

#### Camau a gymerwyd i gynyddu capasiti

Mae'r Penderfyniad presennol a'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd yn seiliedig i raddau helaeth ar faint y sefydliad ar hyn o bryd. Wrth baratoi'r Penderfyniad, mae'r Bwrdd wedi cydnabod bod maint y Senedd ar hyn o bryd a'r llwyth gwaith sy'n wynebu'r Aelodau yn achosi problemau. Yn wir, mae llawer o'r darpariaethau yn y Penderfyniad wedi'u hanelu

at roi cymorth ychwanegol i'r Aelodau i'w helpu i ymdopi â'r pwysau sylweddol ar eu hamser, fel yr amlinellir isod.

### *Staffio*

Yn y Pumed Senedd, caiff yr Aelodau gyflogi Uwch-gynghorydd i fod yn rhan o'u tîm o staff cymorth, os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Mae hon yn swydd uwch yn eu swyddfa. Diben y rôl yw galluogi'r Aelodau i fod â chapasiti strategol ychwanegol. Bwriad y Bwrdd yw bod y rôl yn cael ei defnyddio i ddarparu gwasanaeth ymchwil a briffio ar lefel uchel i'r Aelodau. Mae gan y pleidiau hefyd yr hyblygrwydd i gyflogi rôl Cymorth Grŵp Ychwanegol ar yr un lefel o gyflog.

Cyn 2007, roedd gan yr Aelodau hawl i gyflogi 2.5 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn. Yn 2007, cynyddwyd lefel y cymorth staff i'r Aelodau o 2.5 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn i 3.0 cyfwerth ag amser llawn. Y cyfiawnhad am hynny oedd y cynnydd canfyddedig yng nghyfrifoldebau'r Cynulliad Cenedlaethol o ganlyniad uniongyrchol i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Roedd y rhesymeg dros gynyddu nifer y staff yn awgrymu y dylai'r capasiti ychwanegol ganolbwyntio ar y cymorth strategol sydd ei angen ar yr Aelodau i fynd i'r afael â deddfwriaeth, nid dim ond cynnydd cyffredinol yn nifer y staff gweinyddol a chlerigol gweithredol.

Yn dilyn hyn, cynhaliodd y Bwrdd blaenorol yr egwyddor o 3.0 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn, ond llaciodd ei reolau ychydig trwy ganiatáu i Aelodau benodi unrhyw gyfuniad o raddau staff, cyn belled nad oeddent yn gweithio mwy na 111 awr yr wythnos (sy'n cyfateb i 3.0 cyfwerth ag amser llawn).

Bu'r Bwrdd hwn yn ymgynghori ac yn ymgysylltu â'r Aelodau a'u staff yn gynnar yn nhymor y Bwrdd. O ganlyniad, fe wnaeth y Bwrdd ddileu'r cap o 3.0 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn (y cyfeiriwyd ato fel y cap wythnosol o 111 awr yn ystod yr ymgynghoriad) gan ganiatáu i'r Aelodau symud mwy o arian rhwng y gyllideb swyddfa a'r gyllideb staffio. Rhoddodd hyn fwy o hyblygrwydd i'r Aelodau o ran sut y maent yn gwario eu cyllidebau ac roedd yn caniatáu iddynt ganolbwyntio eu hadnoddau yn unol â'u blaenoriaethau eu hunain. Felly, os yw Aelod yn awyddus i benodi staff ychwanegol i helpu i fynd i'r afael â phwysau'r llwyth gwaith, gall wneud hynny cyhyd â bod digon o arian ar gael.

Yn y Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd, yr Aelodau hefyd fydd yn penderfynu cyflog cychwynnol unrhyw staff newydd, o fewn y bandiau cyflog a bennwyd. Dylai hyn helpu'r Aelodau i ddenu staff mwy profiadol o safon uchel a gallu cystadlu â swyddi tebyg eraill yn y farchnad, a thrwy hynny helpu i gynyddu capasiti.

*Lwfans polisi ac ymchwil*

Yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, roedd y Bwrdd yn cydnabod y gallai fod yn ofynnol i Aelod graffu ar rai meysydd polisi neu ddarnau o ddeddfwriaeth nad oes ganddo ef na'i staff brofiad nac arbenigedd ynddynt. Er mwyn cynorthwyo gyda hyn, cyflwynodd y Bwrdd y Gronfa Polisi ac Ymchwil (gan adeiladu ar y "Gronfa Ymgysylltu" flaenorol) a oedd yn darparu cyllid i'r Aelodau i ddefnyddio arbenigedd allanol i ariannu ymchwil strategol, amser benodol, gan arbenigwyr allanol. Gellir defnyddio'r Gronfa i wneud gwaith ymchwil i ddatblygu polisi, archwilio materion sydd o bwys i etholwyr, ac i graffu ar bolisi, deddfwriaeth neu gyllid.

Ehangwyd y ddarpariaeth hon eto ar gyfer y Pumed Cynulliad. Cynyddwyd maint y Gronfa Polisi ac Ymchwil o £2,000 i £2,500 ac ehangwyd y diffiniad o'i defnydd. Roedd y diffiniad ehangach newydd yn cynnwys y gallu i ddefnyddio'r arian i helpu i gyfathrebu ag etholwyr ar faterion sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd. Mae'r gronfa hon yn dal ar gael, dim ond bod ei henw wedi newid yn Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu.

Mae'r enghreifftiau a amlinellir yn yr adran hon o'r llythyr yn dangos sut mae maint presennol y sefydliad wedi dylanwadu ar benderfyniadau'r Bwrdd o ran cynorthwyo Aelodau a grwpiau. Eu nod yw mynd i'r afael â diffyg yng nghapasiti'r Aelodau.

### **Amrywiaeth y Senedd**

Fel yr amlinellwyd eisoes, yn ychwanegol at ddyletswyddau statudol y Bwrdd, mae'r Mesur yn pennu cyfrifoldebau allweddol eraill y mae'n rhaid iddo geisio eu cyflawni wrth wneud Penderfyniad. Mae hyn yn cynnwys sicrhau, yn achos unrhyw benderfyniad a wneir gan y Bwrdd nad yw, ar sail ariannol, yn atal personau rhag ceisio cael eu hethol i'r Senedd. Mae'r Bwrdd yn cymryd y ddyletswydd hon o ddifrif ac wedi ymrwymo i wneud yr hyn a all i ganfod a chael gwared ar rwystrau rhag sefyll etholiad, fel ffordd o gefnogi'r nod o sicrhau amrywiaeth yn y Senedd.

Mae'r Bwrdd wedi comisiynu dau brosiect ymchwil i'r rhwystrau a'r cymhellion i sefyll etholiad i'r Senedd. Yn fwyaf diweddar, yn 2018, lluniodd Prifysgol Caerdydd adroddiad ar gyfer y Bwrdd o'r enw '[Dadansoddi Amrywiaeth: Rhwystrau a chymhellion i sefyll yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru](#)'.

Roedd casgliadau ac argymhellion yr adroddiad yn ymdrin â thri phrif faes.

Yn gyntaf, argymhellodd yr adroddiad y dylai'r Bwrdd ymgysylltu'n effeithiol ag ystod eang o randdeiliaid i sicrhau ein bod yn deall eu hanghenion a'u safbwyntiau a pharatoi'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd flwyddyn cyn etholiad cyffredinol Cymru, er mwyn rhoi eglurder i ddarpar ymgeiswyr ar y pecyn o daliadau a chymorth a fydd ar gael. Yn unol â hynny, mae'r Bwrdd wedi ymgynghori ar wahanol agweddau ar y Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd, ac mae bellach wedi cyhoeddi ei Benderfyniad ar gyfer 2021-26.

Argymhellodd yr adroddiad hefyd y dylai'r Bwrdd ystyried nifer o fesurau i wella amrywiaeth a chydaddoldeb ymhellach yn y Senedd, megis cynorthwyo'r Aelodau gyda'u costau gofal plant, trefniadau gweithio hyblyg, rhannu swyddi a chronfa mynediad at wleidyddiaeth. Bu rhai argymhellion o'r fath o gymorth i lunio'r cynigion ar gyfer gwneud newidiadau i'r Penderfyniad y mae'r Bwrdd wedi ymgynghori arnynt, er enghraifft:

- Y cymorth sydd ar gael i'r Aelodau dalu am gostau gofal plant;
- Cymorth ychwanegol i Aelodau ag anableddau;
- Darparu lwfans i Aelodau ar absenoldeb rhiant, i dalu am gymorth ychwanegol yn ystod eu cyfnod o absenoldeb;
- Lwfans ar gyfer interniaethau o fewn grwpiau'r pleidiau.

Nid cyfrifoldeb y Bwrdd yw bwrw ymlaen â chynigion eraill fel y rhai sy'n ymwneud â rhannu swyddi a sefydlu cronfa mynediad at wleidyddiaeth. Byddai angen i'r Bwrdd ymateb i unrhyw ddatblygiad o'r fath drwy ystyried eu heffaith ar y Penderfyniad.

Soniodd ymchwil Prifysgol Caerdydd fod yna ffactorau strwythurol, gwleidyddol, diwylliannol a sefydliadol a allai fod yn atal neu'n rhwystro aelodau o rai grwpiau rhag cynnig eu hunain i sefyll etholiad. Mae hyn yn cynnwys diwylliant gwleidyddiaeth yn gyffredinol, sy'n tueddu i ddenu dynion yn hytrach na menywod, a phrosesau'r pleidiau gwleidyddol i ddewis ymgeiswyr. O ran y rhai a gymerodd ran yn yr ymchwil, denodd rhwystrau o'r fath fwy o sylw na rhwystrau o fewn y Senedd ei hun.

Gan ystyried y newidiadau a wnaed eisoes a'r newidiadau a fydd ar waith ar gyfer y Chweched Senedd, mae'r Bwrdd wedi mynd cyn belled ag y gall o fewn ei gylch gwaith i gael gwared ar rwystrau ariannol a rhwystrau eraill sy'n atal unigolion rhag sefyll etholiad.

Fe wnaethoch chi hefyd ofyn pa rwystrau fyddai'n faterion i'r Senedd ei hun fynd i'r afael â hwy. Amlygodd yr ymatebion i'n hymgyngoriad diweddaraf sawl mater a thrafodir y rheini isod.

Pwysleisiodd rhai ymatebwyr i ymgynghoriad y Bwrdd ar ei Benderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd nad yw'r rhwystrau i sefyll etholiad a wynebir gan y rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu am blant o reidrwydd yn rhai ariannol. Tynnwyd sylw at y prinder darpariaeth gofal plant mewn rhai manau, yn enwedig yng nghyffiniau'r Senedd ac yn enwedig y tu allan i'r oriau gwaith arferol. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys y dylai'r Bwrdd weithio gyda Chomisiwn y Senedd a chyflogwyr yn ardal Bae Caerdydd i archwilio'r



potensial i gaffael gofal plant hyblyg a fforddiadwy ar y cyd y gallai'r Aelodau ei ddefnyddio. Awgrymwyd hefyd y dylid sefydlu meithrinfa yn y Senedd. Mae'r Bwrdd yn cydnabod y gallai'r hawliadau am gostau gofal plant gael eu cyfyngu gan brinder darpariaeth hyblyg i ofalu am blant yng nghyffiniau'r Senedd, fel y cyfeiriodd yr ymatebwyr ato. Mae'r Bwrdd wedi cytuno i ysgrifennu at Gomisiwn y Senedd i wahodd y Comisiwn i ystyried y dystiolaeth a gafwyd ar y mater hwn, gan ei fod y tu hwnt i gylch gwaith y Bwrdd.

Yn yr un ymgynghoriad, dadleuwyd y dylai'r Bwrdd Taliadau ganiatáu 'Aelodau locwm' i ddarparu ar gyfer Aelodau ar absenoldeb rhiant, yn lle aelod ychwanegol o staff na allai gymryd rhan yn nhrefodion y Senedd, er mwyn osgoi'r rheidrwydd i Aelodau ar absenoldeb rhiant orfod bod yn bresennol yn y Senedd er mwyn pleidleisio. Awgrymodd yr un ymatebydd y dylid caniatáu i Aelodau ar absenoldeb rhiant bleidleisio drwy ddirprwy.

Nid oedd y Bwrdd yn cytuno â'r awgrym y dylai 'Aelod locwm' fod ar gael i ddarparu ar gyfer Aelodau ar absenoldeb rhiant. Nid yw Deddf Llywodraeth Cymru a rheolau a gweithdrefnau'r Senedd yn caniatáu i bersonau heblaw Aelodau o'r Senedd a etholwyd yn ddemocrataidd gyflawni swyddogaethau Aelod yn nhrefodion ffurfiol y Senedd. Byddai angen newid y gyfraith ar gyfer hyn a byddai'n fater i'r Senedd ei hun.

Yn olaf, yng ngoleuni penderfyniad y Bwrdd y dylid talu lleoliadau gwaith o bedair wythnos neu ragor, dadleuodd ymatebydd arall y dylid cynyddu'r cyllidebau staffio yn unol â hynny, rhag i'r Aelodau ddewis peidio â chynnig cyfleoedd o'r fath oherwydd yr effaith ar eu cyllidebau staffio. Fodd bynnag, yn unol â chynigion y Bwrdd, rhaid i'r rheini sydd ar leoliadau gwaith o bedair wythnos neu ragor gael eu talu, gan ddod yn aelodau staff ychwanegol i wneud gwaith ar ran yr Aelod sy'n cyflogi. Nid oedd y Bwrdd wedi'i argyhoeddi y dylid cynyddu lwfansau staffio'r Aelodau at y diben hwn.

At hynny, fe wyddom bod cynlluniau mentora yn cael eu cynnig i helpu unigolion i cael profiad o waith y Senedd. Mae gwerth mewn cynnal cynlluniau o'r fath, ond nid y Bwrdd sy'n gyfrifol am y cyfleoedd hyn.

#### Ymwybyddiaeth o gynigion

Mae'r Bwrdd wedi ymrwmo i gyhoeddi ei Benderfyniad diwygiedig mewn da bryd cyn etholiad nesaf y Senedd er mwyn rhoi eglurder i ddarpar ymgeiswyr ar y pecyn llawn o daliadau a chymorth a fydd ar gael iddynt. Mae hyn yn dilyn y broses a gynhaliwyd gan y Bwrdd Taliadau blaenorol. Fel y trafodwyd eisoes, mae'r Penderfyniad wedi'i gyhoeddi ers hynny.



Fel y gwyddoch, cafodd Penderfyniad y Bwrdd blaenorol ar gyfer y Pumed Senedd sylw eang yn y cyfryngau. Cyhoeddodd y Bwrdd presennol ddatganiad i'r cyfryngau pan gyhoeddodd ei Benderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd, ond oherwydd y sefyllfa bresennol yn ymwneud â Covid-19, ni chafodd y cyhoeddiad am y Penderfyniad unrhyw sylw y gwyddom amdano.

Mae'r Bwrdd yn teimlo ei fod wedi cymryd camau sylweddol o fewn ei gylch gwaith i gael gwared ar rwystrau a sicrhau cyfle cyfartal i'r rhai sy'n dymuno sefyll etholiad. Fodd bynnag, mater i bleidiau gwleidyddol Cymru yw penderfynu ar amrywiaeth yr ymgeiswyr sydd ar gael i'w hethol ac i etholwyr ddewis eu cynrychiolwyr.

#### Gwersi o fannau eraill

Fel yr amlinellwyd yn gynharach, mae'r Bwrdd yn cwrdd â'i gymheiriaid yn seneddau eraill y DU i rannu syniadau. Roedd yr ymchwil a gomisiynwyd gennym i rwystrau a chymhellion yn nodi hefyd fesurau amrywiaeth y seneddau eraill.

Mae rhai o'r cynigion a ystyriwyd gan y Bwrdd ar gyfer y Chweched Senedd yn adlewyrchu'r arfer mewn seneddau eraill, megis y darpariaethau a wnaed gan IPSA ar gyfer yr Aelodau Seneddol, a addaswyd lle bo angen ar gyfer cyd-destun Cymru. Ymgynghorodd y Bwrdd hefyd ar gymorth ychwanegol mewn perthynas ag anabledau y caiff yr Aelodau ei ddefnyddio i helpu i dalu unrhyw gostau ychwanegol sy'n deillio o'u hymgylltiad ag unigolion ag anabledau. Mae hyn yn adlewyrchu'r un cymorth ychwanegol a ddarperir i Aelodau o Senedd yr Alban.

Fodd bynnag, nid dim ond arferion seneddau eraill y mae'r Bwrdd yn eu hystyried. Rydym hefyd yn nodi mesurau i sicrhau amrywiaeth o fewn llywodraeth leol a rhannau eraill o'r sector cyhoeddus. Er enghraifft, wrth ystyried cynigion ar gyfrifoldebau gofalu, ystyriodd y Bwrdd yr arfer o fewn llywodraeth leol yng Nghymru.

Mae'r Bwrdd hefyd yn ymwybodol o'r cymorth a roddir i aelodau deddfwrfa Norwy i ddychwelyd i weithio neu i symud ymlaen i feysydd cyflogaeth eraill, wrth i'w cyfnod fel aelodau etholedig ddod i ben. Mae hyn o fudd i amrywiaeth yn y Senedd honno. Efallai bod darpar ymgeiswyr o gefndiroedd economaidd penodol yn fwy parod i gynnig eu hunain i'w hethol gan wybod y byddent yn cael cymorth i ddod o hyd i gyflogaeth tuag diwedd eu cyfnod yn y senedd.

